
colegcymraeg.ac.uk
@ColegCymraeg




# GOSOD LLWYBRAU LLWYDDIANT

**CYNLLUN STRATEGOL Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL 2020/21—2024/25**

Cysylltu â ni:

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

**01267 610400**
**colegcymraeg.ac.uk**
**@ColegCymraeg**



**RHAGAIR** **05**

RHAN 1:
**PWRPAS, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD Y COLEG** **06**

RHAN 2:
**EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL 2020–5** **11**

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
CYMRAEG
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government






# RHAGAIR AR Y CYD GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

**Mae'r Cynllun Strategol hwn, ar gyfer y cyfnod hyd at 2025, yn mynegi ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer swyddogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel corff arweiniol sy'n gwreiddio'r Gymraeg fel rhan hanfodol o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru, ac yn benodol yng nghyd-destun addysg ôl-16 ac addysg uwch.**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i weld yn y prifysgolion ar draws y degawd diwethaf o ran y ddarpariaeth Gymraeg a'r dewis a gynigir i fyfyrwyr. Ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a welwyd a hyderwn y bydd gweithredu'r Cynllun Strategol hwn yn llwyddiannus yn gwireddu'r bwriad hwnnw.

Gan fod y Gymraeg wrth wraidd ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, bwriadwn gyfrannu'n weithredol at fywyd cenedlaethol a chydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid yn y sectorau Cymraeg ac addysg er mwyn sicrhau y byddwn yn chwarae rhan gwbl allweddol yn y dasg o gyrraedd targedau Cymraeg 2050 a strategaethau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill.

Ein nod yw llwyddo, ac er mwyn gwneud hynny mae angen adnoddau, cefnogaeth a chydweithrediad. O'u derbyn byddwn yn gosod allan rhaglen waith flynyddol i gyflawni ein Cynllun Strategol.

**Dr Haydn E. Edwards**
Cadeirydd

**Dr Ioan Matthews**
Prif Weithredwr

# RHAN 1: **PWRPAS, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD Y COLEG**

## 1
## Ein Pwrpas

**Pwy ydym ni a beth ydyn ni yn ei wneud?**

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio'n effeithiol gyda phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

Rydym yn gorff cynllunio strategol a chenedlaethol, gyda'r Gymraeg wrth wraidd ein pwrpas a'n gweledigaeth. Rydym yn cyfrannu at gynllunio ac adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gynhwysol o'r radd flaenaf, fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a Chymru ddwyieithog, a thrwy hynny gwreiddio'r Gymraeg mewn economi a chymuned ffyniannus yng Nghymru.



Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd yn y prifysgolion ar draws y degawd diwethaf. Mae angen adeiladu ar y cynnydd hwnnw, ac yn y sector ôl-16 mae angen datblygiad sylweddol a phwrpasol yn unol â'r cynlluniau sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, byddwn yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid tu fewn a thu allan i'r sectorau iaith ac addysg. Gwyddom y bydd angen adnoddau penodol ychwanegol i gael y maen i'r wal. O sicrhau hyn, bydd y Coleg yn rhan allweddol o gyrraedd y nod o greu miliwn o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd.

**Ardrawiad y Coleg**

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu sefydliad cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Aethpwyd ati yn gyntaf i gynyddu ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, i gynyddu a chynnal cymuned o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr a oedd yn dewis astudio rhan o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg.






Ers 2011, mae'r ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion wedi cynyddu yn sylweddol, gan gynnwys:

- Datblygiad rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig newydd ddwyieithog ym Mhrifysgol Bangor
- Darpariaeth Meddygaeth sylweddol wedi ei datblygu am y tro cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe
- Ystod o brifysgolion yn cynnig darpariaeth Rheolaeth a Busnes am y tro cyntaf yn y Gymraeg, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru
- Datblygiad sylweddol yn y Gwyddorau gan gynnwys datblygiad sylweddol ym meysydd Mathemateg a Ffiseg ym Mhrifysgol Aberystwyth
- Graddau Chwaraeon newydd wedi eu cynnig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Bangor
- Darpariaeth gelfyddydau sylweddol a phoblogaidd wedi ei datblygu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant


Bellach mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio yn ein prifysgolion ledled Cymru. Bu aelodaeth i'r Coleg yn agored ers y cychwyn a chan adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Staffio Academaidd, lansiwyd y cynllun Darlithwyr Cysylltiol yn 2018 ac mae ganddo eisoes dros 300 o aelodau. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i bawb sydd yn addysgu drwy'r Gymraeg mewn prifysgol fod yn un o ddarlithwyr cysylltiol y Coleg.

O ganlyniad i'r datblygiadau sylweddol yn y ddarpariaeth a'r cynnydd yn y nifer o ddarlithwyr ac addysgwyr, ers sefydlu'r Coleg cafwyd cynnydd o dros 2,000 yn y nifer o fyfyrwyr llawn amser sy'n astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnydd o oddeutu 400 yn y nifer sy'n astudio traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg, ar y cyd â'r prifysgolion, wedi cyflawni hyn mewn amgylchedd heriol, cystadleuol a chyfnewidiol, a than yn ddiweddar, wedi dygymod yn dda â lleihad mewn adnoddau, datblygiadau technolegol cyflym a newidiadau yn yr hinsawdd gwleidyddol. Mae'r ffaith fod niferoedd myfyrwyr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a niferoedd sylweddol yn dewis astudio y tu allan i Gymru yn heriau sydd yn parhau. Wrth





**Yn 2011, dim ond 12 o'r prif grwpiau pwnc oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2019/20, mae 26 ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.**


*Ffynhonnell:*
Prospectws/Chwilotydd y Coleg Cymraeg




**Mae tua 1,000 o gyrsiau bellach ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg.**




**Yn 2010/11, dim ond 710 o staff mewn prifysgolion a oedd yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2017/18, roedd 1,090 yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.**




**Yn 2010/11, roedd 430 o staff mewn prifysgolion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2017/18, roedd 635 yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.**

*Ffynhonnell:*
Bwletin Ystadegol y Gymraeg mewn Addysg  Uwch 2010/11
a Bwletin Ystadegol y Gymraeg mewn Addysg Uwch 2017/18

symud ymlaen, cytunwyd ar fodel lle y datblygir targedau yn seiliedig ar sicrhau bod canran benodol o siaradwyr Cymraeg yn astudio rhywfaint o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn y cyd-destun a nodwyd, mae'r model hwn yn fodd addas o osod targedau a mesur llwyddiant y prifysgolion i gyrraedd y targedau hynny.


O'r cychwyn, bu strwythurau'r Coleg yn seiliedig ar y cysyniad o bartneriaeth gyda'r prifysgolion ac ymwneud â myfyrwyr mewn modd ystyrlon.

- Ym mhob prifysgol, sefydlwyd cangen o'r Coleg sydd yn gyswllt rhwng y prifysgolion unigol a'r Coleg fel sefydliad cenedlaethol.

- Sefydlwyd y cysyniad o aelodaeth yn gynnar yn natblygiad y Coleg hefyd, ac mae modd i bob myfyriwr a dysgwr ymuno â'r Coleg fel aelod.









**Yn 2010/11, roedd 3,005 o fyfyrwyr llawn amser yn astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**
**Yn 2017/18, roedd 5,275 o fyfyrwyr llawn amser yn astudio o leiaf rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**

*Ffynhonnell:*
Bwletin Ystadegol y Gymraeg mewn Addysg Uwch 2010/11 a Bwletin Ystadegol y Gymraeg mewn Addysg Uwch 2017/18




**Yn 2009/10, roedd 1,982 yn astudio o leiaf traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**
**Yn 2017/18, roedd 2,370 hefyd yn astudio o leiaf traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**

*Ffynhonnell:*
Targedau Strategaeth Gorfforaethol CCAUC a gyhoeddwyd yn 2013 a Bwletin Ystadegol Addysg Uwch 2017/18

- Mae'r bartneriaeth gyda myfyrwyr a dysgwyr yn greiddiol i ethos a gweithgareddau'r Coleg. Mae llwyddiant addysg Gymraeg yn ddibynnol ar sicrhau bod llais myfyrwyr i'w glywed yn glir drwy gydol y broses addysgiadol – yn uniongyrchol mewn darlithoedd, tiwtorialau a lleoliadau gwaith, ac yn gynrychioliadol drwy bob un o bwyllgorau'r Coleg lle y mae gan fyfyrwyr a dysgwyr gynrychiolwyr ar bob lefel gan gynnwys y Bwrdd Cyfarwyddwyr, y Bwrdd Academaidd, o fewn y canghennau ac ar baneli pwnc.

- Anogir myfyrwyr a dysgwyr i gyfrannu at broses gwneud penderfyniadau, i gyflwyno eu cynigion eu hunain ac i gynrychioli'r Coleg fel Llysgenhadon er mwyn cynorthwyo i ddenu'r to nesaf o fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Wrth gyfoethogi'r cynnig i fyfyrwyr a dysgwyr, anelir at ddenu niferoedd cynyddol i astudio o leiaf yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.


Bydd y Coleg yn parhau i gefnogi a datblygu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi myfyrwyr drwy amryw gynlluniau, megis y cynlluniau ysgoloriaethau amrywiol sydd, erbyn hyn, hefyd yn cynnwys buddsoddiad gan y prifysgolion eu hunain er mwyn cynyddu'r niferoedd. Bydd y Coleg hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill er mwyn helaethu a dyfnhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy'r grantiau pynciol a chynllun newydd y Grantiau Sbarduno.

**Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg**

Yn dilyn adolygiad yn 2016/17, penderfynodd Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae'r sectorau hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd gwahanol gan fod y mwyafrif llethol o ddysgwyr yn lleol i'r colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau. Golyga hyn fod y dysgwyr i gyd yn gynulleidfa darged i'r Coleg ac mae'r cynlluniau sydd wedi eu datblygu yn seiliedig ar fodel cyfannol sydd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i bob dysgwr.

Bydd llwyddiant y cynlluniau hyn yn hollol ddibynnol ar sicrhau adnoddau digonol gan Lywodraeth Cymru yn ogystal ag ymrwymiad gan ystod eang o bartneriaid i wireddu'r weledigaeth.

Model Datblygu Sgiliau: mae'r model hwn yn dangos sut y gellid targedu pob dysgwr yn y sectorau AB a Phrentisiaeth gydag ymyraethau ar un neu ragor o lefelau.








**Cyfraniad y Coleg tuag at Cymraeg 2050**

Gyda'r Gymraeg yn ganolog i werthoedd y Coleg, roedd cyhoeddi *Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*[1] yn garreg filltir o bwys. Mae amcanion y strategaeth honno ymhlyg yng nghynlluniau strategol y Coleg, yn enwedig yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, gan fod y cynllun gweithredu ôl-16 yn targedu pob dysgwr, ac nid yn unig y rheiny sydd eisoes yn siaradwyr cymharol hyderus.

Credwn yn gryf ei fod yn hollol allweddol fod y Gymraeg yn agored i bawb, bod pobl yn deall gwerth sgiliau Cymraeg a dwyieithog yng nghyd-destun y gweithle a bod myfyrwyr a dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur yng Nghymru. Mae gennym rôl allweddol i'w chwarae a byddwn yn cydweithio gyda'r Llywodraeth a chyrff eraill i gyfleu'r negeseuon hyn.

Wrth i gyd-destun addysg ôl-orfodol newid a pharhau i newid, ac wrth i strwythurau newydd traws-sectorol gael eu sefydlu a'u datblygu, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ehangu gwaith a dylanwad y Coleg gan weithio mewn partneriaeth ag ystod cynyddol o bartneriaid er mwyn gwreiddio cyfleoedd astudio a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector addysg ôl-orfodol cyfan. Bydd y partneriaethau hynny'n ymestyn y tu hwnt i'r sector addysg a hyfforddiant ac yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a chyrff sydd yn ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg, neu'n hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

[1] Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg

# 2
# Ein Gweledigaeth

**Gweledigaeth y Coleg yw fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Mae hon yn weledigaeth arloesol a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at dargedau *Cymraeg 2050*[2] yn y sector addysg ôl-orfodol.**

Yn ddi-os, mae'r gyfundrefn addysg orfodol (hyd at 16 oed) yn allweddol wrth osod y seiliau i lwyddiant. Sail y cynllun hwn yw mai rôl y Coleg yw datblygu'r sector addysg ôl-orfodol gyda'r bwriad o adeiladu ar lwyddiannau'r sectorau blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig cyfle i bawb ymarfer a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth ddilyn llwybr dilyniant o'r ysgol i fyd gwaith, gan greu'r awydd a'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol drwy gydol oes.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn hyrwyddo cyfleoedd astudio yn y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru yn unol â'n Strategaeth Farchnata.

Mae cyd-destunau cymdeithasol-ieithyddol yn amrywio o fewn y sector addysg ôl-orfodol a bydd y Coleg yn teilwra a blaenoriaethu ei weithgareddau yn strategol, gan gydnabod a chefnogi partneriaid eraill i weithredu mewn sawl cyd-destun.

- Ym maes darpariaeth Safon Uwch mewn ysgolion a'r ddarpariaeth ôl-16 a gynigir gan golegau addysg bellach, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o ddarpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi darpariaeth Safon Uwch lle y mae'r niferoedd o ddysgwyr yn isel, lle bo hynny'n briodol.




Adnodd Prentis-iaith: cwrs byr a ddatblygwyd ar gyfer prentisiaid sydd â rhywfaint neu ddim sgiliau iaith Gymraeg.

[2] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru)





Wrth gydweithio gyda cholegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau byddwn yn gosod y cynllun gweithredu addysg ôl-16 ar waith ac yn cynllunio a datblygu darpariaeth helaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar draws y wlad. Byddwn yn datblygu cynlluniau fesul maes galwedigaethol i dargedu pob dysgwr i wella eu sgiliau dwyieithog mewn cyd-destun gwaith.

- Gyda'r galw cynyddol am sgiliau dwyieithog yn y gweithle, mae'r maes prentisiaethau yn cynnig cyfle sylweddol i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth ddwyieithog i brentisiaid, a thrwy hynny i wneud cyfraniad penodol tuag at y nod o sefydlu'r Gymraeg fel iaith gwaith ar draws y wlad. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r cynllun gweithredu addysg ôl-16 i ddatblygu cyfleoedd newydd i brentisiaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi a gweithio.

- Rhan allweddol o'r gwaith yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau fydd sicrhau cyflenwad digonol o ddarlithwyr, ymarferwyr ac aseswyr sydd yn meddu ar sgiliau dwyieithog, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ddwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr yn y colegau ac i brentisiaid gan ddarparwyr prentisiaethau.

- Ym maes addysg uwch, byddwn yn adeiladu ar waith y degawd diwethaf o gydlynu a datblygu darpariaeth yn y Gymraeg ar draws pob maes academaidd. Byddwn yn parhau i osod egwyddorion Cynllun Academaidd y Coleg ar waith, drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a gosod cynlluniau penodol ar waith i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg mewn pynciau blaenoriaeth.

- Bydd sicrhau cyflenwad digonol o athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr yn allweddol i lwyddiant Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae'n anochel na fydd y targedau presennol ar gyfer cynyddu niferoedd athrawon sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys dysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y sector uwchradd. Credwn fod angen edrych o'r newydd ar yr holl faes hwn ac, yn amodol ar gryfhau statws cynlluniau addysg sirol a newid trefn categoreiddio ysgolion uwchradd, mae angen sicrhau digon o athrawon i ddiwallu'r cynnydd yn y galw. Gall cynyddu sgiliau'r gweithlu presennol gyfrannu at hyn ond credwn fod angen chwyldroi'r gyfundrefn hyfforddiant cychwynnol – darpariaeth a gynigir gan ein prifysgolion – gan roi pwyslais llawer cryfach ar y Gymraeg a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg pob hyfforddai fel rhan greiddiol o'r hyfforddiant cychwynnol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru, rydym yn cydnabod y gall fod adegau ar daith hyfforddiant ac addysg unigolion pan fydd y dysgwr yn dewis peidio â dilyn cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Hyderwn y bydd y gwaith o ddatblygu cyfleoedd apelgar ac effeithiol ar draws y sector addysg ôl-orfodol dros amser yn lleihau'r niferoedd hyn, ond yn y tymor canolig o leiaf, bydd taith addysg ddwyieithog rhai unigolion yn dod i ben am gyfnod. Mae hyn ar ei amlycaf ar hyn o bryd gyda'r ganran uchel o fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Mae dyletswydd ar y Coleg i gynnig cyfleoedd i'r garfan hon fedru cynnal perthynas ddi-dor â'r Gymraeg. Mae'r opsiynau yn cynnwys cadw cyswllt rheolaidd â'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd astudio o bell drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer o'r opsiynau hyn yn heriol ond gyda'r sector addysg uwch yn newid mor gyflym, gellir cymryd y cyfleoedd i fanteisio ar ddatblygiadau arloesol.

## 3
## Ein gwerthoedd

Ein gwerthoedd craidd yw'r hyn sy'n cefnogi'r weledigaeth. Dyma hanfod hunaniaeth y Coleg. Ein huchelgais yw dod â'r gwerthoedd hyn yn fyw wrth weithio tuag at sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y mae'r Coleg yn ymddwyn yn fewnol ac yn allanol wrth ymdrin â staff, aelodau, partneriaid a rhanddeiliaid.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gorff:

**Uchelgeisiol**
Byddwn yn cynnig arweiniad a chefnogaeth o'r radd flaenaf a byddwn yn ddibynadwy wrth gyflawni gwaith o safon uchel.

**Blaengar**
Byddwn yn dîm blaengar ac arloesol sy'n rhoi pwyslais ar ardrawiad dwys a thymor hir.

**Cydweithredol**
Byddwn yn cydweithio i greu a chyfoethogi darpariaeth Gymraeg, dwyieithog a chynhwysol i bawb.













# RHAN 2: EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL 2020–5

**Mae'r Coleg wedi adnabod chwe blaenoriaeth strategol lefel uchel ar gyfer cyfnod y Cynllun Strategol hwn, sef:**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** | Arwain datblygiad a gweithrediad polisi ieithyddol yng Nghymru yng nghyd-destun addysg ôl-orfodol |
| **Blaenoriaeth 2** | Cyfoethogi profiad myfyrwyr a dysgwyr |
| **Blaenoriaeth 3** | Arloesi a chyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol |
| **Blaenoriaeth 4** | Cydweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid |
| **Blaenoriaeth 5** | Cyfrannu at ddyfodol disglair a chynaladwy i addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg |
| **Blaenoriaeth 6** | Gweithio'n broffesiynol ac effeithiol |

Bydd y blaenoriaethau strategol yn cael eu gweithredu drwy'r Cynllun Academaidd, y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau a chynlluniau gweithredu blynyddol.

**BLAENORIAETH 1**

**Arwain datblygiad a gweithrediad polisi ieithyddol yng Nghymru yng nghyd-destun addysg ôl-orfodol**

Bydd y Coleg yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gweithrediad strategaeth tymor hir ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng nghyd-destun Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru a Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn:

i. Datblygu'r cysyniad o gymuned addysgol Gymraeg, drwy'r cynllun Darlithwyr Cysylltiol a fydd yn cynnwys prifysgolion a cholegau addysg bellach a darlithwyr y tu hwnt i Gymru

ii. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng academaidd, gan gynnwys noddi a chefnogi ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg, a hwyluso cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer trafod pynciau a meysydd ymchwil

iii. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn meysydd galwedigaethol a gweithio gyda'r sectorau perthnasol i sicrhau bod y ddarpariaeth a ddatblygir yn hyblyg, hygyrch a chynhwysol

iv. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Cyngor Gweithlu Addysg, darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon a darparwyr hyfforddiant ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar i sicrhau bod cynlluniau i ddatblygu gweithlu a hyrwyddo sgiliau ieithyddol y gweithlu hwnnw yn cael eu datblygu a'u cefnogi. Cefnogwn fodelau sydd yn disgwyl i bawb sydd yn cymhwyso i weithio yn y sector addysg i ddatblygu'r lefel briodol o sgiliau dwyieithog.

v. Parhau i annog darpar fyfyrwyr o Gymru i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. Datblygu cynlluniau i gynnal cyswllt â myfyrwyr sydd yn dewis astudio mewn sefydliadau y tu allan i Gymru, gan gynnwys eu hannog i ddychwelyd i Gymru i astudio ymhellach neu i ddilyn gyrfa.

vi. Mabwysiadu model cyfannol i gryfhau cynlluniau datblygu gweithlu gan gynnwys cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill i hyfforddi staff yn y sector gyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gan gynnwys y sectorau blaenoriaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'w strategaethau a bod cyfle, anogaeth ac amser yn cael ei ganiatáu i hwyluso hyn.

vii. Gweithio gyda chyrff yn y sector preifat i fabwysiadu egwyddorion datblygu gweithlu dwyieithog a hwyluso cyfleoedd i'r gweithlu elwa ar amrywiol gynlluniau.





**BLAENORIAETH 2**

**Cyfoethogi profiad myfyrwyr a dysgwyr**

Ein nod yw sicrhau bod gan bob myfyriwr a dysgwr, boed mewn prifysgol, coleg neu yn y gweithle, gyfle i ddewis derbyn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf, gydag adnoddau priodol i gefnogi eu profiadau.

Byddwn yn:

i. Sicrhau bod llais y myfyriwr yn greiddiol i gynlluniau'r Coleg

ii. Comisiynu adnoddau o'r ansawdd uchaf, gan gynnwys adnoddau gwreiddiol at ddefnydd myfyrwyr, dysgwyr a hyfforddeion

iii. Cynllunio a chynnal darpariaeth addysg uwch drwy ddarparu grantiau pynciol sy'n dilyn fframwaith blaenoriaethu pynciol y Coleg ar draws prifysgolion Cymru

iv. Cynllunio a chynnal darpariaeth ddwyieithog yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, gan gynnwys sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chefnogi gan gymwysterau addas

v. Sicrhau bod prosesau cynllunio academaidd y Coleg yn talu sylw addas i ansawdd, safonau a phrofiad y myfyriwr, a bod y strategaethau a'r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n gyson

vi. Cynnig cyfleoedd i ddarlithwyr ac ymarferwyr gynnal ymchwil, cyhoeddi, rhannu arfer dda, creu adnoddau a datblygu darpariaeth newydd

vii. Darparu gwybodaeth ar lwyfannau hylaw er mwyn galluogi unigolion i ddod o hyd i gyrsiau addysg uwch cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau

viii. Cefnogi datblygiad pellach dysgu cyfunol ac ar-lein o'r radd flaenaf er mwyn sicrhau'r profiadau gorau i fyfyrwyr a dysgwyr wrth astudio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog

ix. Ehangu cyfleoedd i gynnig Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg a chynlluniau eraill a gaiff eu datblygu, yn y gweithle yn ogystal â mewn sefydliadau addysgol. Sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn deall manteision sgiliau Cymraeg yng nghyd-destun y gweithle.

x. Cynnig rhaglen genedlaethol o hyfforddiant i ddarlithwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys cyfleoedd i rannu arbenigedd ac arfer dda.

**BLAENORIAETH 3**

**Arloesi a chyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol**

Bydd y Coleg yn cysylltu'r Gymraeg â llwyddiant gan weithredu a chefnogi'r math o newidiadau sydd eu hangen er mwyn cwrdd â nodau llesiant, sef yr ymrwymiadau y mae'n rhaid eu gwneud er mwyn gwella economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant Cymru. Bydd hyn yn cynnwys dylanwadu ar agweddau siaradwyr Cymraeg yn ogystal â'r di-Gymraeg (gan gynnwys rhieni) tuag at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y Gymraeg, ynghyd â newid yr agweddau hynny.

Byddwn yn:

i. Gweithredu'n gydlynus gyda blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws holl ystod gwaith y Coleg

ii. Rhannu arfer dda â chyrff eraill o ran normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a braenaru'r tir i gyrff ac asiantaethau eraill weithredu drwy'r Gymraeg

iii. Hyrwyddo buddion dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn y cyd-destun Cymreig, a rhoi mynediad at brofiadau addysgol o safbwynt Cymreig

iv. Hyrwyddo cyfleoedd i weithio yng Nghymru a chyfrannu at yr economi.

**BLAENORIAETH 4**

**Cydweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid**

Bydd y Coleg yn cyfeirio adnoddau yn y modd mwyaf cydlynus er mwyn cynyddu'r niferoedd a'r ganran o ddysgwyr sydd yn dewis derbyn addysg neu hyfforddiant yn y Gymraeg. Byddwn yn datblygu a chynnal partneriaethau â chyrff eraill yng Nghymru a thu hwnt er mwyn cryfhau'r isadeiledd a fydd yn cryfhau lle'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant, ac yn benodol yng nghyd-destun cynllunio gweithlu yn y tymor canolig i'r tymor hir, gyda'r nod o gryfhau statws y Gymraeg fel sgil allweddol yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys meithrin a chynnal partneriaethau rhyngwladol y bydd modd i fyfyrwyr, dysgwyr, darlithwyr a hyfforddwyr elwa arnynt.

Byddwn yn:

i. Cydweithio gyda phrifysgolion gan sicrhau bod targedau darpariaeth, staffio a niferoedd myfyrwyr i adrannau prifysgol yn cael eu gosod yn sgil y grantiau pynciol

ii. Cydweithio gyda'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau i weithredu'r strategaethau y cytunwyd arnynt gan gytuno ar dargedau a fydd yn sicrhau bod cynifer â phosibl o ddysgwyr yn cyrchu profiadau Cymraeg a dwyieithog

iii. Cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu ei weledigaeth i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yng Nghymru

iv. Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hyrwyddo a chefnogi dysgwyr newydd i siarad Cymraeg neu wella eu sgiliau

v. Sefydlu partneriaethau â sefydliadau yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill er mwyn rhannu arfer dda a manteisio ar brofiadau y tu fewn ac y tu hwnt i Gymru.





**BLAENORIAETH 5**

**Cyfrannu at ddyfodol disglair a chynaladwy i addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg**

Bydd y Coleg yn cynllunio'n hir-dymor er mwyn sicrhau trefniadau cryf a gwydn ar gyfer cynnal addysg a hyfforddiant ôl-orfodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn:

i. Datblygu modelau cynllunio gweithlu sydd yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i sicrhau cyflenwad digonol o ddarlithwyr a hyfforddwyr cymwys ar draws y sector addysg ôl-orfodol

ii. Sicrhau bod ysgoloriaethau ymchwil a ddyfernir yn gyson â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Coleg, gan gynnwys anghenion polisi cyhoeddus

iii. Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r ymdrechion i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

iv. Gweithio gyda phartneriaid megis Mudiad Meithrin i sicrhau bod gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn meddu ar y sgiliau Cymraeg a dwyieithog angenrheidiol

v. Cefnogi a chyfrannu at gynlluniau ac ymestyn cyfleoedd astudio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod gan bawb yr hawl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg

vi. Cefnogi dilyniant drwy hyrwyddo'r buddiannau a'r cyfleoedd sy'n bodoli i ddisgyblion, athrawon a rhieni o barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.

**BLAENORIAETH 6**

**Gweithio'n broffesiynol ac effeithiol**

Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei drefniadau llywodraethiant a rheolaeth dydd i ddydd yn parhau i fod o safon, ynghyd â bod yn gost-effeithiol a darbodus ar yr un pryd. Bydd y Coleg yn parhau i sicrhau trefniadau atebolrwydd addas dros ei ddefnydd o adnoddau a chyllid cyhoeddus

Byddwn yn:

i. Sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwneud y defnydd mwyaf effeithlon posibl o'r staff sydd gennym, a sicrhau adnoddau digonol er mwyn cwblhau'r gwaith i safon uchel a phroffesiynol

ii. Rhoi sylw penodol i ymchwil a gwerthuso prosiectau a chynlluniau yn rheolaidd

iii. Sicrhau amodau a thelerau gwaith teg a pholisïau cadarn i staff cyflogedig y Coleg er mwyn cefnogi datblygiad a lles

iv. Darparu hyfforddiant rheolaidd ac addas i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, swyddogion cyflogedig ac aelodau o bwyllgorau'r Coleg (gan gynnwys myfyrwyr a dysgwyr)

v. Gwneud defnydd effeithlon o systemau, technoleg gwybodaeth a'r we er mwyn hwyluso gwaith staff, ac i ymgysylltu â myfyrwyr, dysgwyr, rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd

vi. Gweithredu prosesau llywodraethiant cadarn er mwyn sicrhau craffu addas ar holl waith y Coleg a diogelu gwytnwch tymor hir y sefydliad

vii. Sicrhau cydnabyddiaeth o fuddsoddiad y Coleg yn ei staff drwy gyrchu safonau ansawdd.

## 5
## Cyflawni'r Strategaeth

Mae'r strategaeth yn uchelgeisiol a bydd cyflawni'r blaenoriaethau fel y gwelir hwy yma'n her. Bydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill a sicrhau cyllideb ddigonol yn allweddol. Staff y Coleg, a'r staff academaidd hynny a gefnogir yn y prifysgolion a'r colegau, yw ein hadnodd mwyaf a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi eu datblygiad proffesiynol drwy hyfforddiant, blaenoriaethau clir a rheolaeth gadarn.

Yng nghalon ein diwylliant y mae ein hymroddiad i osod myfyrwyr a'r Gymraeg yn ganolbwynt i'n gweithgareddau. Anelwn at fyw ein gwerthoedd ac i fod yn agored ac yn atebol i'n gilydd ond hefyd i'n partneriaid a'n cyllidwyr.

Mae pob un ohonom wedi ymrwymo i gyflawni'r strategaeth a fydd yn ein symud yn nes at gyrraedd uchelgais Llywodraeth Cymru o weld miliwn o bobl yn dewis siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.





## 6
## Mesuryddion

**Mae gweledigaeth y Coleg fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru yn un hir dymor a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at dargedau *Cymraeg 2050*.**

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn mesur llwyddiant y Cynllun ar y daith i wireddu *Cymraeg 2050* mewn tri maes fel a ganlyn:

— Profiad y dysgwr
— Darpariaeth
— Ymwybyddiaeth cyflogwyr.

Mae'r Coleg yn gweithio gyda a thrwy sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn hyrwyddo ei nodau a'i amcanion.

Ein rôl fel corff cynllunio strategol cenedlaethol yw cefnogi a dylanwadu ar y partneriaid hynny drwy'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo addysg ôl-statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Trwy gydweithio gyda'n partneriaid, ein nod yw:**

**Maes 1:
Profiad y Dysgwr**

- Sicrhau cynnydd yn nifer y myfyrwyr a/neu'r canrannau sy'n elwa ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog:
  - yn seiliedig ar y targedau y cytunir arnynt gyda'r prifysgolion (ar gyfer addysg uwch)
  - yn gyffredinol (ar gyfer addysg bellach a **phrentisiaethau**).
- Sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel.

**Maes 2:
Darpariaeth**

- Sicrhau bod darpariaeth Gymraeg a/neu ddwyieithog ar gael:
  - mewn cynifer â phosibl o feysydd (addysg uwch)
  - yn y meysydd a adnabuwyd yn y Cynllun Gweithredu (addysg bellach a phrentisiaethau).
- Sicrhau bod y nifer angenrheidiol o staff ar gael i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog.

**Maes 3:
Ymwybyddiaeth Cyflogwyr**

- Sicrhau cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog a sgiliau yn y Gymraeg.

# CYSYLLTU Â NI

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
**Y Llwyfan**
**Heol y Coleg**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EQ**

**01267 610400**
**colegcymraeg.ac.uk**
**@ColegCymraeg**

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol